**Polisi Cynaliadwyedd**

Datganiad Polisi

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd y rôl sydd ganddi i'w chwarae o ran diogelu ein hamgylchedd naturiol, yn lleol ac yn rhanbarthol ac mewn hyrwyddo egwyddorion o gynaliadwyedd trwy gydol ei holl weithgareddau, gan gynnwys addysgu ac ymchwil.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod diffiniad eang o gynaliadwyedd, yn seiliedig ar gymryd rhan mewn datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Ein nod yw datblygu diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n myfyrwyr. Deallwn fod ein gweithgareddau'n cael effaith ar yr amgylchedd ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001:2015.

Byddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion allweddol canlynol o fewn ein dull gweithredu, sef pileri ein Strategaeth Gynaliadwyedd:-

- Sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'n meddylfryd a'n hymddygiad
- Grymuso ein staff, ein myfyrwyr a'n cymunedau lleol i ddeall cynaliadwyedd ac i fod yn hyrwyddwyr dros gynaliadwyedd
- Gwneud cyfraniad rhagweithiol a chadarnhaol i gynaliadwyedd ein hamgylcheddau

Byddwn yn monitro ein camau cynaliadwyedd mewn modd tryloyw a bod yn atebol drostynt.

Ymgysylltu

Wrth ddatblygu ein Strategaeth Gynaliadwyedd a'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â hyn, rydym wedi ymgynghori â myfyrwyr, staff, undebau perthnasol a'n cymunedau lleol i sicrhau bod ein gweithgareddau yn y maes hwn yn adlewyrchu'r uchelgeisiau sydd gan ein rhanddeiliaid ar gyfer dull Brifysgol Metropolitan Caerdydd o ymdrin â chynaliadwyedd. Byddwn yn parhau i ymgynghori â'r grwpiau allweddol hyn drwy gydol oes y Strategaeth er mwyn sicrhau bod ein gweithredoedd yn parhau'n berthnasol ac fel ein bod yn dryloyw wrth gyfrif am ein gweithredoedd.

Cyfrifoldeb ac adrodd


Bydd yr Is-Ganghellor neu enwebai'r Is-Ganghellor yn gyfrifol am sicrhau bod y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r holl gamau gweithredu cysylltiedig yn cael eu gweithredu.

Bydd y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr ac undebau, yn cael ei goruchwylio a'i monitro gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Brifysgol – o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Partneriaethau ac Ymgysylltu Allanol. Bydd perfformiad yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Rheoli ac yna i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Bydd perfformiad yn cael ei adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd Rheoli a Bwrdd y Llywodraethwyr drwy gyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol. Bydd perfformiad hefyd yn cael ei gyfleu i staff, myfyrwyr a'n cymunedau ehangach drwy InSites, Sefydlu, cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Brifysgol.

Cymeradwywyd gan

Is-Ganghellor



Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Dyddiad

3/9/20

***Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd Ebrill 2020, sy'n cynnwys Partneriaethau Dirprwy Is-Ganghellor ac Ymgysylltu Allanol, Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd, Perchnogion Agweddau EMS, Undeb y Myfyrwyr – Llywydd yr SU a Swyddog Amgylcheddol Rhan-amser yr SU, Undebau Llafur a chynrychiolwyr Academaidd Ysgolion.***

***Cyflwynwyd y drafft i ymgynghoriadau'r Grwpiau Ffocws ar staff a gwirfoddolwyr myfyrwyr, wedi'i ddiweddaru a'i gymeradwyo ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 3 Medi 2020.***

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wirfoddoli ar gyfer adolygu'r Strategaeth / Polisi Cynaliadwyedd, cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk